

## Ffurflen ymateb i ymgynghoriad dan adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Dyddiad cau ymgynghoriad:** 31 Gorffennaf 2015 (drwy ganiatâd)

Noder, os gwelwch yn dda, nad yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw. Mae adran 56 (4) y Mesur yn nodi mai mater i'r person perthnasol yw profi bod gofyniad i gydymffurfio â safon, neu i gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

**Nodwch unrhyw safon(au) o fewn yr Hysbysiad Cydymffurfio hwn (os o gwbl) yr ydych o'r farn eu bod yn afresymol ac/neu anghymesur. Ble bo'n briodol, dylid nodi os ydych o'r farn y byddai amrywio'r gofyniad (wele enghreifftiau isod) yn ei wneud yn rhesymol a/neu gymesur. Yn yr un modd, dylid nodi os oes unrhyw safon gysylltiedig arall sy'n ymwneud â'r un gweithgaredd neu fater yr ydych yn ei ystyried yn rhesymol a/neu gymesur.**

Rhif Safon	Rhesymau / tystiolaeth i gefnogi hynny	A fyddai amrywio'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon yn ei wneud yn rhesymol a/neu gymesur? Er enghraifft cyflwyno'r gofyniad ar adeg wahanol, mewn amgylchiadau gwahanol neu mewn ardaloedd gwahanol.	Oes safon gysylltiedig arall sy'n ymwneud â'r un gweithgaredd neu fater yr ydych yn ei ystyried yn rhesymol a/neu gymesur?
2	Teimlwn fod y Safon hon yn afresymol. Yn Sir Gaerfyrddin mae gennym fwy na 78,000 o siaradwyr dwyieithog ac o ystyried y nifer hwnnw nid ydym yn teimlo ei bod yn ymarferol i gynnal un gofrestr ganolog o ddewis iaith unigolion. Efallai bydd y dewis iaith hefyd yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth ac o ysgrifennu at gyfathrebu ar lafar, h.y. gall person mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Addysg ddewis i gyfathrebu yn Gymraeg, fodd bynnag, pan fydd yr un person yn cyfathrebu â'r Adran Gynllunio, gallant ddewis gwneud hynny yn y Saesneg. Oherwydd yr amrywiaeth yn yr angen hyn nid ydym yn teimlo y byddai'n ymarferol i gynnal cofrestr yn ôl gwasanaeth.		

	<p>Nid ydym yn teimlo y byddai'r baich gweinyddol o weithredu'r safon hon yn ychwanegu budd o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu ei holl wybodaeth yn ddwyieithog i breswylwyr. Nid ydym yn teimlo y gallwn ofyn i drigolion a ydynt eisiau gwasanaeth Cymraeg yn unig heb ofyn a ydynt eisiau gwasanaeth Saesneg yn unig er nad yw'r safonau yn gofyn i ni wneud. Os bydd y dewis rhwng ieithoedd yn cael ei ddarparu rydym yn pryderu y bydd y lefel o wybodaeth cyfrwng Cymraeg a ddarperir i breswylwyr yn lleihau yn sylweddol a thrwy hynny yn lleihau amlygrwydd y Gymraeg i breswylwyr.</p>		
3	Gweler yr ymateb i Safon 2.		
7	Gallwn weithio tuag at gyflawni hyn wrth gyhoeddi hysbysiadau swyddogol a chyhoeddiadau newydd, fodd bynnag, ni allwn gyfiawnhau'r gost o newid unrhyw ddeunyddiau sydd wedi eu hargraffu sydd eisoes yn bodoli megis papur pennawd, slipiau cyfarch ac ati hyd nes bod angen archebu cyflenwad newydd.	Efallai bydd yn cymryd mwy na 6 mis i gydymffurfio'n llawn â'r safon hon. Fodd bynnag, mae'n anodd sicrhau cydymffurfiaeth o fewn 1 blwyddyn, oherwydd yr amrywiaeth o ddeunyddiau sydd ar gael wedi eu hargraffu. Bydd canllawiau ar gyfer staff yn cael eu diweddarau ar unwaith.	
21	Yr un rheswm â Safon 2 a 3.  Byddem hefyd yn gofyn i'r Safon hon ddatgan yn glir bod 'chi' yn y cyd-destun hwn yn golygu y corff perthnasol fel y nodir yn yr 'Offerynnau Statudol'.	Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod rhaid i ni gydymffurfio â'r safon hon, ni fydd yn bosibl cyflawni hyn o fewn 6 mis oherwydd y baich gweinyddol o gyflwyno'r system hon. Rydym felly, yn gofyn am estyniad i gydymffurfio o fewn 1 blwyddyn.	
23	Rydym yn cytuno y gellid gweithredu'r safon hon o safbwynt gwasanaeth h.y. pan gwahoddir un person i drafod materion megis gofal cymdeithasol, darpariaeth addysg neu fater cynllunio ac mai yng nghyd-destun 'cyffredinol' y gwasanaeth a ofynnwyd amdano y golygir hyn.  Fodd bynnag, byddem yn gofyn i'r Safon hon ddatgan yn glir bod 'chi' yn y cyd-destun hwn yn		<p>Teimlwn fod modd i'r Cyngor gyflawni fel cam cyntaf naill ai Safon 24A neu Safon 24B fel nodir isod ac i'w adolygu yn y dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safon 24A: Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y</li> </ul>

	<p>golygu'r corff perthnasol fel nodir yn yr 'Offerynnau Statudol'. Heb yr eglurhad hwn gall rai ddehongli'r safon hon i olygu bod yn rhaid cynnal unrhyw gyfarfodydd rhwng swyddogion y Cyngor a pherson drwy gyfrwng y Gymraeg heb gyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol. Ni fydd hyn yn bosib mewn gwasanaethau lle bydd swyddogion arbenigol yn delio ag ymholiadau neu pan fydd gofyn i reolwyr gwasanaeth unigol a / neu uwch swyddogion i fynychu cyfarfodydd o'r fath.</p> <p>Nid ydym yn teimlo bod hyn yn rhesymol neu'n gymesur heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol, gan yr unig ffordd y gellir cyflawni hyn yw os bydd y gweithlu cyfan yn ddwyieithog ac ni fydd modd i'r Cyngor gyflawni hyn.</p>		<p><i>pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safon 24B: <i>Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).</i></li> </ul>
25	<p>Gofynnwn am eglurder o ran diffiniad 'llesiant' a phaw wasanaethau a meysydd y mae'n cynnwys.</p> <p>Gweler ymateb Safon 23</p> <p>Wrth ystyried lles unigolyn (h.y. achosion amddiffyn plant) mae'n debygol bydd angen nifer o ymarferwyr gwasanaethau ac ymarferwyr arbenigol i gyfrannu at y cyfarfod. Gall rhain fod yn staff y Cyngor a/neu staff asiantaethau allanol eraill. Ni fydd felly yn bosib i gydymffurfio â'r Safon hon heb gymorth gwasanaethau cyfieithu.</p>		<p>Teimlwn fod modd i'r Cyngor gyflawni fel cam cyntaf Safon 26 fel nodir isod ac i'w adolygu yn y dyfodol:</p> <p><i>Safon 26: Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</i></p> <p>Os bydd angen gweithredu Safon 26 nid ydym yn gweld unrhyw fudd o ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.</p>
34	<p>Ar y cyfan teimlwn fod hyn yn gyraeddadwy, fodd bynnag, rydym yn pryderu o ran arddangos dogfennau technegol e.e. deunydd cynllunio megis y Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau cymhleth a thechnegol eraill.</p>	<p>Oherwydd y baich gweinyddol / cynllunio o gyflwyno'r Safon hon, ni fydd yn bosib cyflawni hyn o fewn 6 mis. Rydym felly, yn gofyn am estyniad i gydymffurfio o fewn 1 blwyddyn.</p>	
76	<p>Bydd angen newid sylweddol yn ein proses gwahoddiadau i dendro gyda'r angen bod yr holl</p>	<p>Oherwydd y baich gweinyddol / cynllunio o gyflwyno'r Safon hon, ni fydd yn bosib cyflawni hyn o fewn 6</p>	

	ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.	<p>mis. Rydym felly, yn gofyn am estyniad i gydymffurfio o fewn 1 blwyddyn.</p> <p>Mae'r Uned Caffael Corfforaethol wedi mapio'r holl ddogfennau safonol sy'n gysylltiedig â'n Gwahoddiadau i Dendro ac mae hyn yn cyfateb i 54,000 o eiriau a fydd angen eu cyfieithu. Yn ogystal â hyn, bydd angen cyfieithu 12,000 o eiriau yn flynyddol ar gyfer ymarferion penodol sy'n gorwedd y tu hwnt i Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) – dogfennau sy'n parhau yn Saesneg yn sgil canllawiau Ewropeaidd.</p>	
78	Nid ydym yn teimlo bod cyrraedd y safon hon o fewn yr amserlen a ddynodwyd yn gyraeddadwy oherwydd y ffaith mai swyddogion arbenigol o'r gwasanaeth uniongyrchol bydd yn gyfrifol am yr asesiad a chynnal y broses gyfsweld. Mae'n ddibynnol felly ar sgiliau iaith y gwasanaeth sy'n caffael.		<p>Teimlwn fod modd i'r Cyngor gyflawni fel cam cyntaf Safon 79 fel nodir isod ac i'w adolygu yn y dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safon 79: Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfsweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi-       <ol style="list-style-type: none"> <li>cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfsweliad, a</li> <li>os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfsweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfsweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</li> </ol> </li> </ul>
84	<p>Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16 eisoes yn ei lle felly ni fyddwn yn gallu newid y rhaglen. Fodd bynnag, byddwn yn mapio'r ddarpariaeth a sgiliau ieithyddol y tiwtoriaid yn barod i gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.</p> <p>Gofynnwn am eglurder a fyddai hyn yn berthnasol i gyrsiau Saesneg fel Ail Iaith?</p> <p>Yn ogystal, teimlwn na fyddai gwneud yr holl</p>		<p>Teimlwn fod modd i'r Cyngor gyflawni fel cam cyntaf Safon 86 fel nodir isod ac i'w adolygu yn y dyfodol:</p> <p>Safon 86: Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.</p>

	ddarpariaeth i fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gynaliadwy oherwydd niferoedd yr unigolion sy'n ymgymryd â chyrsgiau penodol. Mae angen o leiaf 10 o gyfranogwyr ar bob cwrs cymunedol er mwyn iddynt fod yn hyfyw a thrwy gorfod darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wahân, mae'n debygol bydd cyfyngu ar yr ystod o gyrsgiau a ddarperir.		
104	Ar hyn o bryd, mae gan staff sydd â chyswllt swyddfa fynediad i Resource Link, sy'n dal y rhan fwyaf o ffurflenni sy'n ymwneud â chyflogaeth yn ddwyieithog. Fodd bynnag, yr ydym yn symud tuag at system newydd 'Fy ngwybodaeth', a fydd yn galluogi staff i ddewis yr opsiwn cyfrwng Cymraeg neu Saesneg wrth gyrchu'r ffurflenni.	Bydd y gwaith hwn yn dechrau ym mis Medi 2015 ac mae'n debygol o gymryd lleiafswm o flwyddyn i ddatblygu. Felly, rydym yn gofyn am estyniad i gydymffurfio o fewn lleiafswm o 1 blwyddyn.  Bydd hefyd angen i ni gynnal archwiliad o bob ffurflen bapur a ddefnyddir gan staff sydd heb gyswllt swyddfa (3,000 o swyddogion) i sicrhau bod y ffurflenni cyfrwng Cymraeg ar gael yn rhwydd ar gyfer eu defnydd.	
112	Nid ydym ar hyn o bryd yn cofnodi cwynion staff yn yr un modd â chwynion gan y cyhoedd (yn Gymraeg na Saesneg) felly bydd angen cyflwyno system newydd. Teimlwn na allwn gyflwyno'r system newydd o fewn y 6 mis ddisgwyliedig.	Oherwydd yr amser sydd angen i gyflwyno system newydd, ni fydd yn bosib cyflawni hyn o fewn 6 mis. Rydym felly yn gofyn am estyniad i gydymffurfio o fewn 1 blwyddyn.	
112A	Gweler ymateb Safon 112		
113	Rydym yn cytuno gyda hawl aelod o staff i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg, fodd bynnag, ni fydd yn bosib i ni gyflawni'r Safon hon ar draws holl wasanaethau ac adrannau'r Cyngor gan nad yw pob rheolwr pobl yn gallu cynnal y cyfarfodydd hyn yn Gymraeg heb gymorth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol.  Yn ogystal, gellid galw ar gynrychiolwyr yr Undebau Llafur a thystion i gymryd rhan yn y cyfarfod ac efallai bydd angen defnyddio cyfieithu ar y pryd i hwyluso'r cyfarfod.		Teimlwn fod modd i'r Cyngor gyflawni fel cam cyntaf Safon 114 fel nodir isod ac i'w adolygu yn y dyfodol:  Safon 114: Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi - <i>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;</i> <i>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol;</i> <i>as os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth</i>

			<i>cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu)</i>
117	<p>Ni fydd yn bosibl cynnal pob cyfarfod disgyblu neu gyfarfodydd cwyno / apêl cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg heb unrhyw gyfieithu ar y pryd oherwydd sgiliau iaith rheolwyr pobl a staff eraill a chynrychiolwyr sy'n cefnogi'r broses honno.</p> <p>Yn ogystal, gall cynrychiolwyr a thystion yr Undebau Llafur cael eu galw i gymryd rhan yn y cyfarfod. Gallai hyn wneud defnydd o wasanaethau cyfieithu yn ofynnol er mwyn hwyluso'r cyfarfod.</p>		<p>Safon 118:</p> <p><i>Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</i></p>
121	Oherwydd y lefel o wybodaeth ar fewnwyd y Cyngor, ni fydd yn bosibl i gyflawni'r gofyniad hwn o fewn 6 mis.	Oherwydd lefel y gwaith sydd ei angen i gyflwyno'r Safon hon, ni fydd yn bosibl cyflawni hyn o fewn 6 mis. Felly, rydym yn gofyn am estyniad i gydymffurfio o fewn lleiafswm o 1 blwyddyn.	
138	<p>Nid ydym yn teimlo ei bod yn rhesymol i gydymffurfio â'r safon hon gan nad ydym yn teimlo ei bod yn briodol i ymgeiswyr nodi eu dewis iaith ar y cam ymgeisio, fodd bynnag, byddwn yn gofyn am y wybodaeth wrth gadarnhau y gwahoddiad i gyfweiliad gydag ymgeiswyr.</p> <p>Yn ogystal, ni fyddwn yn gallu cynnal yr holl gyfweiliadau drwy gyfrwng y Gymraeg heb gyfieithu ar y pryd gan na fydd pob rheolwr gwasanaeth ac aelodau etholedig sy'n cynnal cyfweiliadau o'r fath yn ddwyieithog.</p>		<p>Teimlwn fod modd i'r Cyngor gyflawni fel cam cyntaf Safon 139 fel nodir isod ac i'w adolygu yn y dyfodol:</p> <p><i>Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi — (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).</i></p> <p>O.N O ran cymal (a) Ni fyddwn yn gofyn wrth gyflwyno'r ffurflen gais ond yn hytrach wrth gynneg cyfweiliad</p>

151	<p>Ni fyddwn yn gallu cydymffurfio â'r Safon hon o fewn y 6 mis fel y nodir gan y bydd angen mwy o amser i ddatblygu ein dull o gasglu data a dulliau cofnodi er mwyn hwyluso'r broses hon trwy feddalwedd Adnoddau Dynol (Resource Link).</p> <p>Yn ogystal, rydym wrthi'n gweithio ar ein Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg newydd a fydd yn symud o'r lefelau CGC a fabwysiadwyd yn flaenorol i'r Fframwaith Cymdeithas Profwyr leithoedd yn Ewrop. Bydd hyn yn gofyn i ni adolygu lefelau presennol 8,300 o staff yn erbyn y fframwaith newydd.</p>	<p>Oherwydd lefel y gwaith sydd ei angen i gyflwyno'r Safon hon, ni fydd yn bosibl cyflawni hyn o fewn 6 mis. Felly, rydym yn gofyn am estyniad i gydymffurfio o fewn 1 blwyddyn. Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn i staff i hunan-asesu a chredwn mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.</p>	
<p><b>Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn blwyddyn</b></p>			
41	<p>Ar hyn o bryd, nid oes gennym y gweithlu i gydymffurfio â'r safon hon o fewn gwasanaethau, felly, bydd y cyfrifoldeb yn disgyn ar yr Uned Gyfieithu i gyflawni'r Safon. Mae nifer yr adroddiadau a gyflwynir i gyfarfodydd cabinet yn enfawr, a bydd cydymffurfio â'r safon hon yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol yng ngwasanaethau cyfieithu'r Cyngor. Mae Uned Gyfieithu y Cyngor yn eisoes yn gweithio y tu hwnt i'w capasiti ac er mwyn cydymffurfio bydd angen i ni sicrhau adnoddau ychwanegol i gynyddu'r gweithlu o fewn yr uned.</p> <p>Yn ogystal, os bydd angen cyflwyno'r holl adroddiadau a phapurau yn ddwyieithog, rydym yn teimlo y bydd cyflwyno'r Safon hon yn arafu'r broses ddemocrataidd ac yn sgil hynny y broses o wneud penderfyniadau, gan y bydd eitemau yn cael ei oedi wrth iddynt gael eu paratoi yn ddwyieithog.</p>		
145	<p>Byddwn mewn sefyllfa i lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd, fodd bynnag, nid ydym yn teimlo ei bod yn bosibl i osod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd sydd dan sylw, gan na fydd modd i ni fesur cynnydd yn erbyn y targed hwnnw. Y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell wybodaeth boblogaeth gyfan sy'n gallu darparu'r lefel honno o fanylder. Felly bydd hi ond</p>		

	<p>yn bosibl i fesur hyn bob 10 mlynedd.</p> <p>Yn ogystal, yn y cyd-destun hwn, hwylusydd yw'r Cyngor a gallwn ond dylanwadu ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg. Ni ellir ein dal yn gyfrifol am darged mympwyol o'r fath. Er ein bod yn cydnabod fod gan y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae, nid ydym yn gallu cyflawni hyn ar ein pen ein hunain, ac nid ydym yn teimlo bod y Safon hon yn cydnabod yr ymagwedd gymuned gyfan a fydd yn ofynnol i wneud unrhyw gynnydd ar y mater hwn.</p>		
146	<p>Mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ym mhopeth a wna. Rydym yn cynnal ac yn trefnu cannoedd o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ac nid ydym yn teimlo y bydd rhestru gweithgareddau yn y modd hwn yn ychwanegu gwerth at y gwaith o hyrwyddo'r iaith Gymraeg.</p> <p>Ar gyfer Sir Gâr, teimlwn bod rhestru gweithgarwch yn ffug, gan fod angen i ni symud tuag at hyrwyddo defnydd o'r iaith yn hytrach na chyfrif nifer y gweithgareddau a gynhelir.</p>		

Dychwelwch y ffurflen hon at [ymchwiliad.safonau@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:ymchwiliad.safonau@comisiynyddygyymraeg.org) os gwelwch yn dda.